**Y Pwyllgor Cydraddoldeb a Chyfiawnder Cymdeithasol**
—
**Equality and Social Justice Committee**

**Senedd Cymru**
Bae Caerdydd, Caerdydd, CF99 1SN
SeneddCydraddoldeb@senedd.cymru
senedd.cymru/SeneddCydraddoldeb
0300 200 6565
—
**Welsh Parliament**
Cardiff Bay, Cardiff, CF99 1SN
SeneddEquality@senedd.wales
senedd.wales/SeneddEquality
0300 200 6565

Jane Hutt AS
Ysgrifennydd y Cabinet dros Gyfiawnder Cymdeithasol, y Trefnydd a'r Prif Chwip
Llywodraeth Cymru

27 Mawrth 2025

Annwyl Jane,

Cydlyniant cymdeithasol: cymhwystra ar gyfer prydau ysgol am ddim

Gwnaethom gynnal sesiwn rhanddeiliaid ar 17 Mawrth fel rhan o'n hymchwiliad i gydlyniant cymdeithasol. Gwnaethom drafod ystod o faterion, gan gynnwys y berthynas rhwng y polisi ynghylch y rheini heb hawl i gyllid cyhoeddus (NRPF), y bwlch cyrhaeddiad a phrydau ysgol am ddim.

Yn Lloegr, deallwn fod y Llywodraeth wedi ymestyn y meini prawf cymhwystra ar gyfer cael prydau ysgol am ddim i blant ym mhob cartref sy'n cynnwys pobl heb hawl i gyllid cyhoeddus, yn amodol ar drothwyon incwm. Yng Nghymru, fodd bynnag, mae awdurdodau lleol yn cael eu hannog "i arfer eu disgresiwn i ddarparu Prydau Ysgol am Ddim i unrhyw blentyn y mae statws mewnfudo'i rieni yn golygu nad oes ganddo hawl awtomatig iddynt."[1] Clywsom bryderon ynghylch y perygl y bydd y dull dewisol sydd wedi'i fabwysiadu yng Nghymru yn ehangu'r bwlch cyrhaeddiad ac yn achosi anghydraddoldebau o safbwynt canlyniadau addysgol ac iechyd i waethygu. Byddem yn ddiolchgar pe gallech, wrth ymateb, egluro:

1. Y rhesymau pam y mae Llywodraeth Cymru o'r farn bod dull gweithredu dewisol yn well na hawl awtomatig;
2. Manylion ynghylch sut y mae Llywodraeth Cymru yn annog awdurdodau lleol i ddarparu prydau ysgol am ddim;
3. Manylion ynghylch sut y mae Llywodraeth Cymru yn monitro ymateb awdurdodau lleol, gan gynnwys y niferoedd sy'n manteisio ar y cynnig, er mwyn sicrhau bod y canllawiau'n cael eu dehongli'n deg ac yn gyson.

[1] Llywodraeth Cymru, Prydau ysgol am ddim: gwybodaeth i awdurdodau lleol ac ysgolion

Byddwn yn croesawu ymateb o fewn yr amserlen arferol. Rwy’n anfon copi o'r llythyr hwn at Buffy Williams AS, Cadeirydd y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg.

Yn gywir,

Jenny Rathbone AS

Cadeirydd y Pwyllgor Cydraddoldeb a Chyfiawnder Cymdeithasol